

Priddoedd


Tymheredd y Pridd

Mae priddoedd cynnes yn allweddol ar gyfer taenu maethynnau, hau, gwreiddio cnydau a thyfu egin yn effeithiol.


Mae rhygwellt parhaol yn dechrau tyfu pan fo tymheredd y pridd 10 cm o dan wyneb y tir yn cyrraedd 5.5°C am bum diwrnod yn olynol. Nid yw gwrtaith nitrogen a daenir cyn i'r pridd gyrraedd yr isafswm tymheredd hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon, ac mae peryg y gallai arwain at gollodion i'r amgylchedd. Mae gwneud y gorau o dwf glaswellt y gwanwyn yn ffactor allweddol i leihau costau porthiant ar y fferm. Mae 1 kg o ddeunydd porfa sych yn costio 75% yn llai na'r swm cyfatebol o egni a ddarperir trwy brynu dwysfwydydd atodol. Mae taenu gwrtaith ar yr adeg gywir yn allweddol i leihau costau a sicrhau'r cnwd mwyaf posibl o laswellt ar gyfer llawer o sustemau ffermio yng Nghymru.

Isafswm Tymheredd Y Pridd °C ar gyfer Twf Cnydau* *10 cm o dan wyneb y tir	
Cnwd	Tymheredd pan fo'r cnwd yn dechrau tyfu (°C)
Rhygwellt	5.5
Meillion	8.0
Liwsérn	10
Cnydau Bresych (Brassica)	10
Indrawn Porthiant	8-10
Gwndwn Amlrywogaeth	5.5-10

Mae tymheredd y pridd hefyd yn effeithio ar weithgarwch biolegol mewn pridd; er enghraifft, ceir llai o weithgarwch mwydod pan fo tymheredd y pridd yn uwch na 21°C neu'n is na 5°C. Mae hyn yn dylanwadu ar gyfraddau mwyneiddio maethynnau a'r cyflenwad ohonynt ar gyfer tyfiant y planhigion. Bydd draeniad gwael a chywasgiad pridd hefyd yn effeithio ar dymheredd y pridd ac yn lleihau gweithgarwch biolegol a hyd y tymor tyfu.




Cymerodd Ffermwyr Datblygu Masnachol PROSOIL dymheredd y pridd yn rheolaidd, gan ddangos sut y mae tymheredd pridd a fesurir ar yr un adeg o'r flwyddyn yn amrywio rhwng blynyddoedd a rhwng caeau. Mae hyn yn dangos ei bod yn hanfodol i ffermwyr gymryd tymheredd eu caeau eu hunain i gael y budd mwyaf posibl o ran maethynnau, eginiaid hadau a pherfformiad eu glaswelltir.



Priddoedd

Ffermwyr PROSOIL yn cymryd rhan

Dywedodd rhai ffermwyr yng Nghymru wrth dîm cynllun PROSOIL eu bod yn defnyddio adeg blodeuo'r cennin pedr i wybod pryd i daenu maethynau. I brofi'r ddamcaniaeth, cymerodd ffermwyr Grŵp Datblygu Rhanbarthol PROSOIL ran mewn arbrawf, dan arweiniad y ffermwyr eu hunain, lle'r oeddent yn plannu bylbiau cennin pedr (sef yr amrywiad "Tamara") ac yn anfon gwybodaeth werthfawr am y dyddiadau blodeuo a thymheredd y pridd drwy negeseuon testun, cardiau post neu trwy drydar. Dangosodd tymheredd y pridd wrth i'r cennin pedr "Tamara" flodeuo nad yw hyn yn arwydd dibynadwy ar gyfer taenu maethynau.



Tymheredd y pridd wrth i'r cennin pedr flodeuo, Gwanwyn 2015

Mesur tymheredd pridd glaswelltir

- Gwthiwch y thermometr pridd 10 cm i'r ddaear
- Arhoswch i'r darlleniad setlo cyn cofnodi'r canlyniad
- Mesurwch yng nghanol y diwrnod neu yn y bore a gyda'r hwyr a chyfrifo'r cyfartaledd

